Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiasol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-14-12: 18 Mehefin 2012**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

**CLA156 - Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Diwygio) 2012**

**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed:** 25 Mai 2012.
**Fe'u gosodwyd:** 30 Mai 2012.
**Yn dod i rym:** 21 Mehefin 2012

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

**CLA154 - Rheoliadau Seibiannau i Ofalwyr Plant Anabl (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn**: Cadarnhaol.
**Fe'u gwnaed:** heb ei nodi.
**Fe'u gosodwyd:** heb ei nodi.
**Yn dod i rym:** 28 Mehefin 2012

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

Dim

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

Dim

**Busnes arall**

**Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru**

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan yr Athro Thomas Glyn Watkin, Pennaeth Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor. Gofynnodd yr Aelodau am nodyn ar Gynhadledd y Llefarydd 1918.

**CLA151 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Myfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2012**

Nododd y Pwyllgor fod esboniad y Prif Weinidog ynghylch absenoldeb fersiynau Cymraeg o'r Offerynnau Statudol a wnaed ar y cyd â Gweinidogion y DU yn y cyfarfod ar 11 Tachwedd 2011 yn gymwys hefyd i CLA151 – Rheoliadau Addysg (Benthyciadau Myfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 2) 2012.

**Penderfynu i gyfarfod yn breifat**

Yn unol â Rheolau Sefydlog 17.42(vi) a (ix) penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn trafod goblygiadau'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Bil Llywodraeth Leol) i'r ddadl ar adroddiad y Pwyllgor ar yr ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU a'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno hyd yn hyn fel rhan o'r ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru.

**David Melding AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.**

**18 Mehefin 2012**